OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1721 (Cy.188)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Gorffennaf 2003* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi ystyried, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, sy'n sefydlu yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac sy'n gosod gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch bwyd(**3**), ac yn unol ag adran 48(4) a 4(B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1990 (p. 16).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Ysgrifennydd Gwladol" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.